# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGU A CHYFLWYNO POLISI ADDYSG A SGILIAU

## A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOM 2, CIVIC CENTRE, SWANSEA DYDD MERCHER, 12 GORFFENNAF 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| S E Crouch | F M Gordon | B Hopkins |
| L R Jones | M A Langstone | S Pritchard |
| M Sykes | D W W Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Brian Roles | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau Addysg |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Nick Williams | Prif Swyddog Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M B Lewis, C L Philpott a/ac K M Roberts

5 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

6 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion o Bwyllgor Cyflwyno a Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 25 Mai fel cofnod cywir

7 **Y CYLCH GORCHWYL. (ER GWYBODAETH.)**

Amlinellodd y Cadeirydd Gylch Gorchwyl ar gyfer y pwyllgor, er gwybodaeth.

Amlinellodd Chris Sivers, Cyfarwyddwr Pobl, y cefndir a'r rhesymeg a oedd yn sail i gyflwyno'r pwyllgorau cyflwyno a datblygu polisi (PCDP) i aelodau.

Nododd mai bwriad y pwyllgorau oedd eu bod yn canolbwyntio ar ddatblygu polisi a sicrhau cyflwyno, yn bennaf drwy ymrwymiadau polisi'r cyngor, i'w mabwysiadu gan y cyngor ar 27 Gorffennaf 2017. Y nod yw y bydd y pwyllgorau'n sianel i alluogi i aelodau a swyddogion weithio ar y cyd, gydag ymagwedd a arweinir gan aelodau er mwyn cyflwyno’r blaenoriaethau corfforaethol.

Rhoddodd fanylion i dynnu sylw at y gwahaniaeth sylweddol rhwng y PCDP a Chraffu, gan amlinellu sut maent yn wahanol i'r PCC oherwydd fe'u harweinir gan Flaenoriaethau Corfforaethol drwy'r Cadeirydd ac nid drwy Aelod y Cabinet, er bydd y cysylltiadau agos gyda phroses y Cabinet ac Aelod y Cabinet yn parhau.

Dylai'r PCDP anelu i ddarparu canlyniadau clir yn dilyn cyflwyniad ymchwil, tystiolaeth a gwybodaeth, a dylid ceisio osgoi dyblu gwaith gyda'r pedwar PCDP arall, er y bydd gweithio ar y cyd yn angenrheidiol mewn rhai meysydd pwnc.

## 8 CYNLLUN GWAITH 2017 - 2018. (TRAFODAETH)

Pwysleisiodd y Cadeirydd unwaith eto y gall y Pwyllgor drafod ei Raglen Waith a'i wneud yn swyddogol ar ôl mabwysiadu'r Blaenoriaethau Corfforaethol ar 27 Gorffennaf 2017.

Dywedodd ei fod wedi gwahodd y Prif Swyddog Addysg i ddod i roi peth gwybodaeth gefndirol i'r pwyllgor yn ogystal â throsolwg cryno o'r Meysydd Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Addysg.

Yna, cyflwynodd Nick Williams, y Prif Swyddog Addysg, y meysydd canlynol, gan eu hamlinellu a chyfeirio atynt:

- Dangosyddion perfformiad cenedlaethol – 7, 11, 14 ac 16 (Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 – TGAU)
- Ôl-16
- Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol
- Monitro presenoldeb
- Monitro gwaharddiadau
- Yr angen i roi'r sgiliau angenrheidiol i bobl ifanc er mwyn iddynt adael yr ysgol/y coleg a dechrau gweithio
- Effaith Adolygiad Donaldson
- Ysgolion Arloesi
- Llwyddiant cynlluniau entrepreneur
- Rhannu arfer da ymysg ysgolion
- Effaith y Fargen Ddinesig
- Yr angen i sicrhau digon o ddarpariaeth Hyfforddiant i Athrawon yn y dyfodol
- Parhad/ehangiad yr "integreiddio" presennol ac arbennig sy'n cael ei gyflawni

Trafodwyd y meysydd uchod gan yr aelodau a gofynnwyd cwestiynau i'r Swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor dderbyn trosolwg briffio ar y Fargen Ddinesig a'i goblygiadau i'r Gwasanaeth Addysg yn y dyfodol yn y cyfarfod nesaf, cyn y gellid trafod yn fwy eang eitemau'r Rhaglen Waith yng nghyfarfod mis Medi.

**PENDERFYNWYD**

1) cyflwyno trosolwg o'r Fargen Ddinesig yng nghyfarfod mis Awst.

2) ymgymryd â thrafodaeth bellach ar eitemau Rhaglen Waith y dyfodol yn y cyfarfod ym mis Medi.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.30 pm

**CADEIRYDD**